OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 403 (Cy. 100)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr Ôl-raddedig) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Mawrth 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *30 Mawrth 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Mai 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a (b) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**):

## RHAN 1

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr Ôl-raddedig) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Mai 2022.

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146(2)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1)(b) a 22(2)(b) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44 o'r Ddeddf honno hefyd fod y swyddogaethau yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i fod i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

**Cymhwyso**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

# RHAN 2

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**3.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(**3**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE – hepgor y cyfnod gras

**Diwygiadau i reoliad 2**

**4.** Yn rheoliad 2(1)—

(a) hepgorer y diffiniad o "cyfnod gras";

(b) yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig", hepgorer paragraff (1)(a)(iii).

**Diwygiadau i reoliad 3**

**5.** Yn rheoliad 3(10)(a)—

(a) ym mharagraff (i), hepgorer "(iii),";

(b) ym mharagraff (ii), hepgorer "(iii) neu".

**Diwygiad i Atodlen 1**

**6.** Yn Atodlen 1, hepgorer paragraff 3(1)(a)(iii).

(**3**) O.S. 2017/523 (Cy. 109); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/895 (Cy. 161); O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

# RHAN 3

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

## PENNOD 1

## Cyflwyniad

**7.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**4**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

## PENNOD 2

## Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE – hepgor y cyfnod gras

### Diwygiadau i reoliad 2

**8.** Yn rheoliad 2(1)—

(a) hepgorer y diffiniad o "cyfnod gras";

(b) yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig", hepgorer paragraff (1)(a)(iii).

### Diwygiadau i reoliad 3

**9.** Yn rheoliad 3(11)(a)—

(a) ym mharagraff (i), hepgorer "(iii),";

(b) ym mharagraff (ii), hepgorer "(iii) neu".

### Diwygiad i Atodlen 1

**10.** Yn Atodlen 1, hepgorer paragraff 3(1)(a)(iii).

## PENNOD 3

## Cymhwystra ar gyfer dinasyddion penodol o Affganistan

### Diwygiad i reoliad 2

**11.** Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol, mewnosoder—

"ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" ("*person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen*") yw person—

(a) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo, caniatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BJ2 neu 276BO2 o'r rheolau mewnfudo;

(b) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid;

(**4**) O.S. 2018/656 (Cy. 124), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2019/1094; O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

(c) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan; neu

(d) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo fel priod, partner sifil neu blentyn dibynnol person sy'n dod o dan baragraff (c) neu blentyn dibynnol i briod neu bartner sifil o'r fath;".

**Diwygiad i reoliad 8**

**12.** Yn rheoliad 8, ar ôl paragraff (bb), mewnosoder—

"(bc) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;".

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**13.** Yn Atodlen 1, ym mharagraff 4A(4)(b)—

(a) yn is-baragraff (iii), hepgorer y "neu" terfynol ac ar ddiwedd is-baragraff (iv), mewnosoder "neu";

(b) ar ôl is-baragraff (iv), mewnosoder—

"(v) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;".

PENNOD 4

Diwygiadau sy'n ymwneud â chymorth ariannol

**Diwygiadau i reoliad 13**

**14.** Yn rheoliad 13—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "£27,265" rhodder "£27,880";

(b) ym mharagraff (2)(b), yn lle "£27,265" rhodder "£27,880".

PENNOD 5

Diwygiadau sy'n ymwneud â rhaglenni seicoleg addysgol penodol

**Diwygiad i reoliad 3**

**15.** Yn rheoliad 3, ar ôl paragraff (3), mewnosoder—

"(3A) Nid yw person ("A") yn fyfyriwr cymwys—

(a) os yw A yn ymgymryd â rhaglen ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n arwain at ddyfarnu doethuriaeth mewn seicoleg addysgol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022, a

(b) os rhoddwyd i A neu os talwyd iddo mewn perthynas ag A yn ymgymryd â'r rhaglen honno unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg a gyllidir gan Weinidogion Cymru."

# RHAN 4

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

## PENNOD 1

### Cyflwyniad

**16.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**5**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

## PENNOD 2

### Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE – hepgor y cyfnod gras

**Diwygiadau i reoliad 12A**

**17.** Yn rheoliad 12A(a)—

(a) yn is-baragraff (i), hepgorer "(iii),";

(b) yn is-baragraff (ii), hepgorer "(iii) neu".

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**18.** Yn Atodlen 1, ym mharagraff 3(1)—

(a) hepgorer y diffiniad o "cyfnod gras";

(b) yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig", hepgorer paragraff (1)(a)(iii) o'r diffiniad hwnnw.

**Diwygiad i Atodlen 2**

**19.** Yn Atodlen 2, hepgorer paragraff 1(2)(a)(iii).

**Diwygiad i Atodlen 4**

**20.** Yn Atodlen 4, hepgorer y cofnod yn y tabl ar gyfer "cyfnod gras".

## PENNOD 3

### Cymhwystra ar gyfer dinasyddion penodol o Affganistan

**Diwygiadau i reoliad 16**

**21.** Yn rheoliad 16—

(a) ym mharagraff (1)(b), ar ôl is-baragraff (i), mewnosoder—

"(ia) bod y myfyriwr yn dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;";

(b) ym mharagraff 2, yn y lle priodol mewnosoder "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" ("*person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen*");".

(**5**) O.S. 2019/895 (Cy. 161); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2019/1094; O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2020/918 (Cy. 206); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

**Diwygiadau i Atodlen 2**

**22.** Yn Atodlen 2, paragraff 2A—

(a) yn is-baragraff (4)(b)—

(i) hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd paragraff (iii);

(ii) ar ddiwedd paragraff (iv), yn lle'r hanner colon rhodder ", neu";

(iii) ar ôl paragraff (iv), mewnosoder—

"(v) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;".

(b) ar ôl is-baragraff (4)(d) mewnosoder—

"(da) ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan" yw person—

(i) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo, caniatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BJ2 neu 276BO2 o'r rheolau mewnfudo,

(ii) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid,

(iii) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, neu

(iv) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo fel priod, partner sifil neu blentyn dibynnol person sy'n dod o dan baragraff (iii) neu blentyn dibynnol i briod neu bartner sifil o'r fath;".

## PENNOD 4

Diwygiadau sy'n ymwneud â chymorth ariannol

**Diwygiadau i reoliad 31**

**23.** Yn rheoliad 31—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "£17,025" rhodder "£17,430";

(b) ym mharagraff (3)(b), yn lle "£17,025" rhodder "£17,430".

**Diwygiadau i reoliad 36**

**24.** Yn rheoliad 36—

(a) ym mharagraff (8), yn lle "£17,025" rhodder "£17,430";

(b) ym mharagraff (10), yn lle "£17,025" rhodder "£17,430".

## PENNOD 5

Diwygiadau sy'n ymwneud â chyrsiau gwaith cymdeithasol ôl-raddedig penodol

**Diwygiadau i reoliad 10**

**25.** Yn rheoliad 10(1)—

(a) yn Eithriad 9, hepgorer paragraff (d);

(b) ar ôl Eithriad 9, mewnosoder—

*"Eithriad 9A*

Mewn cysylltiad â P yn ymgymryd â'r cwrs dynodedig, rhoddwyd i P neu talwyd iddo unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg a wneir o dan adran 116(2)(a) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac eithrio i'r graddau y mae P yn gymwys i gael y taliad hwnnw mewn cysylltiad â threuliau teithio.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan fo'r cwrs dynodedig yn dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022."

**Mewnosod rheoliad newydd 24A**

**26.** Yn Rhan 6, ar ôl y pennawd i Bennod 2 o'r Rhan honno, mewnosoder—

"**Amodau cymhwyso i gael grant sylfaenol**

**24A.** Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant sylfaenol mewn perthynas â chwrs dynodedig oni bai bod y myfyriwr cymwys yn fyfyriwr gofal cymdeithasol ôl-raddedig."

**Diwygiad i reoliad 26**

**27.** Yn rheoliad 26, ar ôl "garcharor cymwys", mewnosoder "neu'n fyfyriwr gofal cymdeithasol ôl-raddedig".

**Diwygiad i reoliad 31**

**28.** Yn rheoliad 31(1), ar ôl "fyfyriwr cymwys", mewnosoder "nad yw'n fyfyriwr gofal cymdeithasol ôl-raddedig".

**Mewnosod rheoliad newydd 31A**

**29.** Ar ôl rheoliad 31, mewnosoder—

"**31A.**—(1) Cyfrifir swm y benthyciad cyfrannu at gostau sy'n daladwy i fyfyriwr cymwys sy'n fyfyriwr gofal cymdeithasol ôl-raddedig ("P") fel a ganlyn—

£18,430

*Minws*

Swm y bwrsari gofal cymdeithasol a roddir neu a delir i P.

(2) Caiff myfyriwr gofal cymdeithasol cymwys wneud cais i Weinidogion Cymru i ddiwygio swm y benthyciad cyfrannu at gostau y mae'r myfyriwr wedi gwneud cais amdano, ar yr amod—

(a) nad yw cyfanred symiau'r benthyciad cyfrannu at gostau y gwneir cais amdanynt yn fwy na'r swm a gyfrifir yn unol â pharagraff (1), a

(b) bod cais o'r fath yn cael ei wneud yn unol â rheoliad 18(2).

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "bwrsari gofal cymdeithasol" yw unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg o dan adran 116(2)(a) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac eithrio i'r graddau y mae mewn cysylltiad â threuliau teithio."

**Diwygiad i Atodlen 1**

**30.** Yn Atodlen 1, paragraff 3(1), yn y lle priodol, mewnosoder—

"ystyr "myfyriwr gofal cymdeithasol ôl-raddedig" ("*postgraduate social care student*") yw myfyriwr cymwys y rhoddwyd neu y talwyd iddo unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg o dan adran 116(2)(a) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;".

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

29 Mawrth 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:

(a) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") (gweler Rhan 2 o'r Rheoliadau),

(b) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") (gweler Rhan 3 o'r Rheoliadau), ac

(c) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") (gweler Rhan 4 o'r Rheoliadau).

Mae Pennod 2 o Rannau 2, 3 a 4 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018 a Rheoliadau 2019 o ran cymhwystra sy'n codi o'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae'r diwygiadau yn dileu cyfeiriadau at y "cyfnod gras" o ganlyniad i'r ffaith bod y cyfnod hwnnw bellach wedi mynd heibio.

Mae Pennod 3 o Rannau 3 a 4 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2018 a Rheoliadau 2019. Mae'r diwygiadau yn darparu i ddinasyddion Affganistan y rhoddir caniatâd amhenodol iddynt i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl feini prawf eraill.

Mae Pennod 4 o Rannau 3 a 4 o'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2018 a Rheoliadau 2019 sy'n ymwneud â'r swm o gymorth ariannol y caiff myfyriwr cymwys ei gael ar gyfer blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022.

Mae Pennod 5 o Ran 3 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2018. Mae'r diwygiad yn darparu i berson sy'n ymgymryd â rhaglen sy'n arwain at ddoethuriaeth mewn seicoleg addysgol ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022, beidio â bod yn gymwys i gael cymorth ariannol pan fo bwrsari neu ddyfarndal tebyg a gyllidir gan Weinidogion Cymru wedi ei roi neu ei dalu iddo.

Mae Pennod 5 o Ran 4 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2019 er mwyn gwneud myfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs gwaith cymdeithasol ôl-raddedig, sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2022, yn gymwys i gael benthyciad cyfrannu at gostau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.